**<u>IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU</u>**
**<u>DYDD LLUN, 5 MEHEFIN 2017</u>**

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Dydd Llun, 5 Mehefin 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: David Cox a Mike Reece

**SWYDDOGION CYNGOR SIR Y FFLINT:**
Arweinydd Tîm Trwyddedu (Gemma Potter), Cyfreithiwr (Tim Dillon) a Swyddog Pwyllgor (Sharon Thomas)

Ymgeisydd a chynrychiolydd.

**1. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Roedd y Cynghorydd Reece yn datgan cysylltiad personol yn Eitem 3 ar y Rhaglen gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd rai blynyddoedd yn ôl er nad oedd erioed wedi ei adnabod yn bersonol. Dywedodd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu fod enwau aelodau'r panel wedi eu rhannu gyda'r ymgeisydd cyn y cyfarfod ac nad oedd wedi codi unrhyw faterion.

**2. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD**

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol gan eu bod yn cael eu hystyried yn wybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 12 ac 13 o Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**GWRANDAWIAD A PHENDERFYNIAD AM YR YMGEISYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd. Cyflwynodd aelodau'r panel ac eglurodd y drefn ar gyfer y gwrandawiad, gan gynnwys sut y gwneir penderfyniad am y cais.

**4. CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HURIO PREIFAT / CERBYD HACNI (AR Y CYD)**

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu yr adroddiad i ystyried cais ar gyfer Trwydded yrru Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni (ar y cyd).

Gwahoddodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i gyflwyno sylwadau ac i roi eglurhad llawn o'i euogfarnau blaenorol a fanylwyd ar ddatgeliad cofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cyfeiriodd yr ymgeisydd at ei sylwadau ysgrifenedig a oedd wedi eu cynnwys ar y rhaglen a rhannodd wybodaeth gefndir ar yr euogfarnau. Ymatebodd i

gwestiynau a ofynnwyd gan y panel a chymerodd y cyfle i ddosbarthu tystiolaeth gefnogol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y panel, rhoddodd yr ymgeisydd eglurhad am amrywiol agweddau o'i euogfarnau a hefyd ei gefndir cyflogaeth.

Gofynnodd y Cyfreithiwr am eglurhad ynglŷn â pham bod yr ymgeisydd wedi methu datgelu'r holl euogfarnau ar y ffurflen gais trwyddedu oedd ond yn sôn am un, gan fod y ffurflen yn gofyn yn benodol am unrhyw drosedd. Dywedodd yr ymgeisydd ei fod yn edifar bod yn euog o drosedd a oedd yn dyddio'n ôl rai blynyddoedd. Roedd wedi tybio bod y rhain wedi darfod ac roedd yn cydnabod nad oedd wedi bod yn onest yn eu hepgor o'r cais wrth wneud cais am waith. Hefyd rhoddodd yr ymgeisydd eglurhad am amgylchiadau'n ymwneud â rhai o'r euogfarnau. Pan ofynnwyd, ymatebodd gan ddweud ei fod yn ystyried ei hun yn unigolyn cymwys ac addas i gael trwydded er gwaethaf hepgor yr euogfarnau blaenorol ar ei ffurflen gais. I gefnogi hyn, cyfeiriodd at ei gefndir gwaith fel gyrrwr, gan ychwanegu ei fod yn rhydd o euogfarnau ers sawl blwyddyn.

Yn dilyn cwestiynau pellach gan y panel, eglurodd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu yr amrywiol drefn trwyddedu ynglŷn â cherbydau o wahanol faint.

Gofynnwyd i gynrychiolydd o gwmni tacsi, oedd gyda'r ymgeisydd yn y cyfarfod a oeddent yn ystyried yr ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i gael trwydded ac ymatebwyd gan ddweud eu bod yn credu hynny.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon y gofynnwyd yr holl gwestiynau perthnasol, gofynnodd i'r ymgeisydd a'i gynrychiolydd a'r Arweinydd Tîm Trwyddedu adael y cyfarfod tra'r oedd y panel yn dod i benderfyniad.

**4.1 Penderfyniad am yr Ymgeisydd**

Wrth ddod i benderfyniad am yr ymgeisydd, roedd y panel wedi ystyried canllawiau'r Cyngor ar drin euogfarnau a oedd gyda'r adroddiad. Wrth ystyried, mynegwyd pryderon am onestrwydd yr ymgeisydd gan ei fod wedi methu â datgelu ei holl euogfarnau. Fodd bynnag, ystyriodd y panel yr amgylchiadau ym mhob achos a'r cyfnod ers yr euogfarn diwethaf, a theimlwyd bod yr ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat (ar y cyd).

Gwahoddwyd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu a'r ymgeisydd yn ôl er mwyn ailymgynnull y cyfarfod.

**4.2 Penderfyniad**

Dywedodd y Cadeirydd bod gan y panel amheuon am onestrwydd yr ymgeisydd oherwydd ei fethiant i ddatgelu'r holl euogfarnau o'r gorffennol. Ar ôl ystyried y sylwadau gan bawb, cytunwyd i ganiatáu'r cais.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chaniatáu'r Drwydded.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 3.02pm)

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**
**5 Mehefin 2017**

Cofnodion cyfarfod Is-Bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug am 3pm, dydd Llun, 5 Mehefin 2017.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: David Cox a Mike Reece

**SWYDDOGION CYNGOR SIR Y FFLINT:**
Arweinydd Tîm Trwyddedu (Gemma Potter), Cyfreithiwr (Tim Dillon) a Swyddog Pwyllgor (Sharon Thomas)

Ymgeisydd.

1. **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

2. **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD**

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol gan eu bod yn cael eu hystyried yn wybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 12 ac 13 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

3. **GWRANDAWIAD A PHENDERFYNIAD AM YR YMGEISYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a chyflwynodd aelodau'r panel. Eglurodd y drefn ar gyfer y gwrandawiad, gan gynnwys sut y gwneir penderfyniad am yr ymgeisydd.

4. **CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HURIO PREIFAT/CERBYD HACNI (AR Y CYD)**

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu yr adroddiad i ystyried cais ar gyfer Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni (ar y cyd).

Gwahoddodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i gyflwyno sylwadau a gofynnodd pam ei fod wedi methu datgelu euogfarnau ar Adran 5 o'r ffurflen gais trwyddedu o ystyried bod yr Awdurdod wedi derbyn euogfarnau blaenorol trwy ddatgeliad cofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Tra'n egluro ei fod wedi cam ddehongli'r cwestiwn i adlewyrchu unrhyw euogfarnau moduro, pwysleisiodd yr ymgeisydd nad oedd ganddo unrhyw beth i'w guddio. Mewn ymateb i ymholiadau gan y panel, rhoddodd eglurhad ar yr amgylchiadau'n ymwneud â'i euogfarnau a ddigwyddodd rai blynyddoedd cynt ac

eglurodd amryw o faterion yn ymwneud â'r rhain mewn ymateb i gwestiynau gan y Cyfreithiwr. Pan ofynnwyd iddo, roedd yr ymgeisydd yn datgan ei fod yn unigolyn cymwys ac addas i gael trwydded, gan ddweud ei fod yn awyddus i weithio i gefnogi hyn.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon y gofynnwyd yr holl gwestiynau perthnasol, gofynnodd i'r ymgeisydd a'r Arweinydd Tîm Trwyddedu i adael y cyfarfod tra'r oedd y panel yn dod i benderfyniad.

**4.1 Penderfyniad am yr Ymgeisydd**

Wrth wneud penderfyniad am y cais, roedd y panel wedi ystyried canllawiau'r Cyngor ar drin euogfarnau a oedd gyda'r adroddiad. Er fod gan y panel bryderon am fethiant yr ymgeisydd i ddatgan ei euogfarnau blaenorol, ystyriwyd amgylchiadau'r euogfarnau hynny a'r amser ers iddynt ddigwydd. O ganlyniad, roeddent yn ystyried bod yr ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni (ar y cyd).

Gwahoddwyd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu a'r ymgeisydd yn ôl er mwyn ailymgynnull y cyfarfod.

**4.2 Penderfyniad**

Dywedodd y Cadeirydd fod y panel wedi ystyried y sylwadau gan bawb, ac ar sail hynny, cytunwyd i ganiatáu'r cais.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i gynnal Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chaniatáu'r Drwydded.

(Dechreuodd y cyfarfod am 3.03pm a daeth i ben am 3.45pm)